

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd, Pwyllgor Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Mai 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ebrill ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i fater cam-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys cais gan yr NSPCC i'r Pwyllgor lansio ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Rwyf eisoes wedi nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo sefyllfa lle mae plant yng Nghymru'n teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, yn elwa ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant ac yn gallu gwireddu eu hawl i fod yn ddiogel. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i wneud popeth a allwn i atal cam-drin plant yn rhywiol, i ddiogelu plant sydd mewn perygl ac i gynorthwyo plant i wella o'r niwed sylweddol y mae cam-drin rhywiol yn ei achosi.

Rydych wedi gofyn am wybodaeth mewn nifer o faterion penodol yn eich llythyr ac mae'r ymateb hwn yn mynd i'r afael â phob un o'r rhain fel y nodir isod

- “Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r dystiolaeth gan yr NSPCC bod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i COVID-19, a'r ffaith bod hynny'n rhwystr i gael gafael ar gymorth, wedi cynyddu'r risg o gam-drin plant yn rhywiol mewn rhai achosion”.**

Ysgrifennais at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y pumed tymor, ar 8 Mehefin 2020, mewn ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor i effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd fy llythyr yn nodi'r trefniadau yr oeddem wedi'u cyflwyno, gan weithio gyda phartneriaid i ddiogelu plant yn ystod y pandemig.¹

Cytunais i estyniad 6 mis i'r cyfnod adrodd ar gyfer y 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol'², gan ei ymestyn o 31 Rhagfyr 2020 i 30 Mehefin 2021 yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, parhaodd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu i gyflawni camau gweithredu o dan y Cynllun gydol y pandemig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400



Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Unrhyw dueddiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi o ran nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant, y rhai a gafodd eu rhoi mewn gofal a'r rhai y mae angen gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol arnynt yn ystod blynyddoedd ariannol 2019-20, 2020-21, a 2021-22?



3. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd – a pha gamau y bydd yn eu cymryd – i sicrhau bod gan yr awdurdodau perthnasol y gallu a'r arbenigedd i ymateb yn briodol i bob achos o gam-drin plant yn rhywiol?

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 15 Gorffennaf 2019 yn lansio'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ac yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chamdriniaeth fel blaenoriaeth barhaus.³

Nod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yw atal cam-drin plant yn rhywiol (yn cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol), i nodi a diogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol a chynorthwyo plant sydd wedi'u cam-drin i wella.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn cynnwys chwe cham gweithredu clir ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol y Byrddau Diogelu Plant. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn ffurf arbennig o gudd ar gam-drin am resymau cymhleth ac amlwg. Mae'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn canolbwyntio ar dorri'r tawelwch ar gam-drin plant yn rhywiol.

Mae hyn yn gofyn am waith i godi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth a darparu cymorth i rieni a gofawyr a phlant a phobl ifanc eu hunain.

Comisiynwyd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus fawr gan Stop it Now /The Lucy Faithfull Foundation ac mae wedi cael ei hyrwyddo gan Fyrddau Diogelu Plant ledled Cymru, 'Mae'n amser i ni siarad am y peth'.⁴

Mae amrywiaeth o gyngor ymarfer ar adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol wedi'i gomisiynu drwy'r Cynllun ac yn cael ei hyrwyddo'n eang gan Fyrddau Diogelu

Plant yng Nghymru. Y diweddaraf o'r adnoddau hyn, er enghraifft, yw cyfres o 12 ffilm, a gomisiynwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.⁵

Mae amrywiaeth o gyngor i rieni a gofawyr wedi'u datblygu a'u hyrwyddo, er enghraifft mae Stop it Now Cymru wedi comisiynu cyngor i rieni ar gadw plant yn ddiogel a'u cynorthwyo os ydynt yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth i rieni/gofawyr plant a phobl ifanc LGBTQ+, rhieni/gofawyr plant ag anabledd dysgu a rhieni ag anabledd dysgu a rhieni/gofawyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, sydd ar gael mewn 12 iaith.⁶

Cafodd gwybodaeth i blant a phobl ifanc yn eu sicrhau y byddai pobl yn eu credu pe byddent yn gofyn am gymorth a sut i gael y cymorth hwnnw ei chomisiynu gan NSPCC/Childline.⁷ Cafodd animeiddiad yn sicrhau pobl ifanc sydd mewn perygl o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant y byddent yn cael y cymorth angenrheidiol ei gomisiynu gan Brifysgol Caerdydd.⁸

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi cyhoeddi rhestr lawn o adnoddau Llywodraeth Cymru⁹ a ddatblygwyd o dan y Cynllun hyd at fis Gorffennaf 2021. Bydd rhestr ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

Mae'r chwe Bwrdd Diogelu Plant yng Nghymru wedi hyrwyddo'r adnoddau hyn ledled y rhanbarthau. Mae'r Byrddau wedi gweithio hefyd gyda'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Stop it Now Cymru/the Lucy Faithfull Foundation a Phrifysgol Caerdydd i ddarparu sesiynau hyfforddi i ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad ar-lein yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2021 i rannu dysgu a hyrwyddo'r adnoddau a ddatblygwyd o dan y Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan oedolion a oedd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol a'u hecsbloetio fel plant a chan sefydliadau arbenigol sydd wedi datblygu adnoddau. Cofrestrodd dros 400 o ymarferwyr o asiantaethau gwahanol ar gyfer y digwyddiad.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru ddau grant trydydd sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Stop it Now/the Lucy Faithfull Foundation yn 2020. Mae'r grantiau hyn yn cefnogi dau brosiect sy'n ceisio atal cam-drin plant yn rhywiol, adnabod camdriniaeth ac ymateb iddo ac ymyrryd yn gynnar â theuluoedd lle mae yna bryderon y gallai plant fod yn agored i gam-drin plant yn rhywiol. Cytunwyd y bydd y ddau grant yn para tan 31 Mawrth 2025.

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2022 mae'r prosiectau hyn wedi darparu sesiynau addysg ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol i 1,574 o rieni/gofawyr ac ymarferwyr. Darparwyd hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol amlasiantaeth i 463 o ymarferwyr. Yn ogystal, darparwyd deuddeg sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr i 48 o fuddiolwyr. Cwblhawyd ymyriadau un-i-un gyda 68 o deuluoedd, lle mae yna bryderon bod plant yn agored i gael eu cam-drin yn rhywiol.

Cafwyd cynnydd o 50% yn nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio tudalennau gwefan Stop It Now! yng Nghymru, i fyny i 22,175. Cafwyd cynnydd o 80% yn y nifer sy'n ymweld â thudalennau pwrpasol yr ymgyrch. Cafwyd cynnydd sylweddol o 6,500, yn dilyn ymgyrch atgoffa a gynhaliwyd rhwng 21 Chwefror ac 18 Mawrth 2022.

Ers 2019, drwy ddarparu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a grantiau trydydd sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy cafwyd ffocws clir ar baratoi ymarferwyr ledled asiantaethau i allu adnabod arwyddion cam-drin plant yn rhywiol, i

drafod datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac i ddeall sut i ymateb i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin rhywiol neu sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol. Ar yr un pryd, cwblhawyd gwaith codi ymwybyddiaeth a rhannwyd gwybodaeth i rieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc gyda'r nod o dorri'r tawelwch am gam-drin plant yn rhywiol.

4. Diweddariad ar adolygiad Llywodraeth Cymru o'r dystiolaeth o ran effaith ei Chynllun Gweithredu Cenedlaethol: Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a fydd yn dechrau ar 31 Ionawr 2022, a'i chynlluniau i ymgysylltu â Byrddau Diogelu a rhanddeiliaid eraill ar unrhyw gamau nesaf.

Daw'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol cyfredol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol i ben ar 30 Mehefin 2022. Bydd y chwe Bwrdd Diogelu Plant yn darparu tystiolaeth o weithredu'r camau ar gyfer partneriaid y Byrddau Diogelu ar 30 Mehefin 2022. Cafodd fy swyddogion gyfarfod â Rheolwr Busnes y Byrddau ar 24 Mawrth i drafod gofynion adrodd.

Ym mis Medi 2022 bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth gan y Byrddau Diogelu Plant a Llywodraeth Cymru ar gyflawni camau gweithredu o dan y Cynllun.

Nid yw dyddiad cyhoeddi adroddiad terfynol ac argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi'i gyhoeddi eto. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi byddwn yn ystyried yr argymhellion ochr yn ochr â thystiolaeth o weithredu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Yna, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal cyfres o gyfarfodydd ymgynghori â phartneriaid diogelu statudol, y Byrddau Diogelu Plant a'r trydydd sector i ystyried meysydd ffocws ar gyfer gwaith pellach. Bydd y broses hon yn cael ei defnyddio hefyd i nodi a yw hi'n briodol gofyn am ragor o dystiolaeth gan oedolion sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant a phobl ifanc.

Mae gan bob Bwrdd Diogelu Plant drefniadau rhanbarthol i ddarparu trosolwg o'r broses o gynllunio a chyflawni gwaith o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Byrddau Diogelu Plant gynnal y trefniadau hyn ar ôl 30 Mehefin 2022, bydd hyn yn cynnal ffocws ar barhau'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol eisoes wedi ymweld â phob Bwrdd Diogelu Plant i drafod gwaith pellach ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarthau. Mae fy swyddogion yn mynychu Grŵp Llywio'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ac yn ymgysylltu'n barhaus â'r Ganolfan.

Mae fy swyddogion yn mynychu ac yn adrodd i Ford Gron Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn hefyd. Fel Cadeirydd, byddwch yn ymwybodol hefyd bod fy swyddogion yn mynychu ac yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol hefyd.

5. **Barn Llywodraeth Cymru ar alwadau gan yr NSPCC am gynllun diogelwch ar-lein gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar blant a phobl ifanc ac sy'n cysylltu'r holl bartneriaid drwy ddull Cymru gyfan o amddiffyn ac atal.**

Mae'n [Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein](#) yn rhoi ffocws i'n gwaith ar ddiogelwch ar-lein ac yn cefnogi'n cenhadaeth i gynyddu cadernid digidol ein plant a'n pobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddull traws-sector, amlddisgyblaeth o wella darpariaeth, polisi ac ymarfer cadernid digidol. Yn ogystal â gwaith cydgysylltiedig rhwng isadrannau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a digidol Llywodraeth Cymru, mae'r tîm Cadernid Digidol mewn Addysg yn ymgysylltu a chydweithio ag ystod gynyddol o bartneriaid arbenigol fel yr NSPCC, yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, Internet Watch Foundation, Cyngor y DU ar Ddiogelwch y Rhyngryd (UKCIS), Tarian (heddlu), Internet Matters, Childnet ac amrywiaeth o randdeiliaid trydydd sector.

Eleni, byddwn yn sefydlu panel cyngori plant a phobl ifanc ar gadernid digidol hefyd i sicrhau bod llais y dysgwyr yn cael ei gynrychioli. Bydd aelodau'r panel yn rhoi adborth am gynnwys cyfredol, yn tynnu sylw at unrhyw broblemau ar-lein sy'n effeithio arny'n nhw ar hyn o bryd ac yn gwneud argymhellion i lywio cynnwys a chyfeiriad polisi'r dyfodol.

6. **Barn Llywodraeth Cymru ar: ▪ ganfyddiadau'r Ymchwil Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn perthynas â Chymru hyd yma yn gyffredinol gan gynnwys ei waith ymchwil a'i adroddiadau ymchwil; ▪ sut y mae canfyddiadau'r ymchwiliad hwn ledled y DU yn bwydo i mewn i bolisi ac arferion Cymru. ▪ perfformiad awdurdodau cyhoeddus a amlinellir yn yr adroddiad o fis Chwefror 2022 ar rwydweithiau wedi'u trefnu yn ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe; ac ▪ ymateb Ysgrifennydd Cartref y DU i'r adroddiad hwnnw, gan gynnwys comisiynu arolygiad cenedlaethol i ymateb yr heddlu i gam-drin plant yn rhywiol.**

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ymchwiliad statudol i Gymru a Lloegr, a sefydlwyd yn 2015 o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn llawn yng ngwaith yr Ymchwiliad drwy dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol a thrwy sesiynau tystiolaeth ffurfiol yr ymchwiliad, a fynychwyd gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru ac uwch swyddogion eraill lle bo'n briodol. Mae'r Ymchwiliad yn gwneud penderfyniadau ar gyhoeddi tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r Ymchwiliad drwy Grŵp Cyfeirio Cymru'r Ymchwiliad hefyd. Mae Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru ac uwch swyddogion perthnasol eraill yn mynychu'r Grŵp hwn yn ogystal â chynrychiolwyr Comisiynydd Plant Cymru, awdurdodau lleol, partneriaid iechyd a'r heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, academyddion a'r trydydd sector.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu ymatebion ffurfiol i argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cynnwys ei ymchwiliad ei hun i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan rwydweithiau cyfundrefnol erbyn Gorffennaf 2022. Nid yw'n briodol rhoi sylwadau yma cyn cyflwyno'r ymateb ffurfiol hwn i'r Ymchwiliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y dystiolaeth sy'n ymddangos o'r Ymchwiliad. Un canlyniad o hyn, er enghraifft, yw cyhoeddi 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru.¹⁰ Mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chynrychiolwyr o Banel Ymgynghori Dioddefwyr a Goroeswyr yr Ymchwiliad i ddatblygu adnoddau ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.

Rwyf wedi dweud eisoes y bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried adroddiad terfynol ac argymhellion yr Ymchwiliad wrth wneud penderfyniadau am waith pellach ar gam-drin plant yn rhywiol. Bydd natur statudol yr Ymchwiliad yn golygu y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ffurfiol i argymhellion yr Ymchwiliad a bydd rhaid dilyn y drefn briodol mewn perthynas â hyn.

Gobeithio bod y Pwyllgor yn gweld yr ymateb hwn yn fuddiol. Hoffwn gynnig sicrwydd bod Llywodraeth Cymru'n llwyr gydnabod yr angen i gynnal a pharhau gwaith i atal ac ymateb i gam-drin rhywiol yng Nghymru.

Yn gywir,



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

¹ [Eich cyf \(senedd.wales\)](https://www.senedd.wales).

² [Preventing and responding to child sexual abuse: national action plan | GOV.WALES](https://gov.wales/atal-ac-y-mateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llyw-cymru)
[Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: cynllun gweithredu cenedlaethol LLYW.CYMRU](https://gov.wales/atal-ac-y-mateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llyw-cymru)

³ [Written Statement: Launch of National Action Plan on tackling child sexual abuse and consultation on safeguarding children from child sexual exploitation \(15 July 2019\) | GOV.WALES](https://gov.wales/written-statement-launch-of-national-action-plan-on-tackling-child-sexual-abuse-and-consultation-on-safeguarding-children-from-child-sexual-exploitation-15-july-2019)
[Datganiad Ysgrifenedig: Lansio'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar ymdrin â chamdrin plant yn rhywiol ac ymgynghoriad ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol \(15 Gorffennaf 2019\) | LLYW.CYMRU](https://gov.wales/datganiad-ysgrifenedig-lansio-r-cynllun-gweithredu-cenedlaethol-ar-ymdrin-a-chamdrin-plant-yn-rhywiol-ac-ymgyngoriad-ar-ddiogelu-plant-rhag-camfanteisio-rhywiol-15-gorffennaf-2019)

⁴ [2020WG Poster Campaign ENG.pdf \(stopitnow.org.uk\)](https://stopitnow.org.uk/2020WG-Poster-Campaign-ENG.pdf)
[2020WG Poster Campaign CYMRU 11FEB20.pdf \(stopitnow.org.uk\)](https://stopitnow.org.uk/2020WG-Poster-Campaign-CYMRU-11FEB20.pdf)

⁵ [Supporting practice in tackling child sexual abuse: A film series for professionals, by professionals - YouTube](https://www.youtube.com/watch?v=...) [Cefnogi ymarfer wrth fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol: Ein cyfres ffilm 12 rhan newydd - YouTube](https://www.youtube.com/watch?v=...)

-
- 6 [Stop It Now – Taflenni ac adnoddau i gadw plant yn ddiogel yng Nghymru](#)
- 7 [you-have-the-right-to-be-safe---english---u12.pdf \(childline.org.uk\)](#)
[you-have-the-right-to-be-safe---english---o12.pdf \(childline.org.uk\)](#)
[mae-gennyt-tir-hawl-i-fid-yn-ddiogel---cymraeg---u12.pdf \(childline.org.uk\)](#)
[mae-gennyt-tir-hawl-i-fod-yn-ddiogel---cymraeg---o12.pdf \(childline.org.uk\)](#)
[Getting Help To Keep Safe \(u12\) | Childline](#)
[Cael help i gadw'n ddiogel \(dan 12 oed\)](#)
[Getting help to keep safe | Childline \(over 12\)](#)
[Cael help i gadw'n ddiogel \(dros 12 oed\)](#)
- 8 [Keeping Safe? Ffil fer i bobl ifanc - YouTube](#)
- 9 ['National Action Plan preventing and responding to child sexual abuse' resources - Safeguarding Board Wales](#)
[Adnoddau'r 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol' - Bwrdd Ddiogelu \(bwrdddiogelu.cymru\)](#)
- 10 [Working together to safeguard people: Code of safeguarding practice | GOV.WALES](#)
[Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU](#)